



cartrefi gwell, dyfodol disglair  
better homes, brighter future

**DATGANIAD I'R WASG**  
**Ebrill 2010**

## **Tai Ceredigion yn buddsoddi mewn gwell garejys**

Mae Tai Ceredigion, y gymdeithas tai newydd yng Ngheredigion, yn bwriadu cynnal adolygiad sylweddol o'i garejys ac asedau eraill dros y 12 mis nesaf. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas wedi etifeddu dros 700 o garejys oedd gynt yn eiddo i Gyngor Sir Ceredigion, ac mae angen gwaith atgyweirio neu garejys newydd sbon ar lawer ohonynt.

Mae'n debyg hefyd nad yw llawer o'r garejys yn cael eu defnyddio ar gyfer eu pwrpas gwreiddiol, sef cadw ceir oddi ar ffyrdd prysur stadau tai. Felly, mae'r Gymdeithas yn bwriadu cynnal archwiliad llawn o'i holl garejys yn ogystal ag adolygu a ddylid adnewyddu neu ddymchwel y rhai sydd yn y cyflwr gwaethaf.

Yn ei gyfarfod diweddar penderfynodd aelodau Bwrdd Tai Ceredigion gyfyngu'r codiad mewn rhenti garejys i'w thenantiaid ei hun i 25c yr wythnos, ond i godi rhenti garejys £1 yr wythnos i bobl nad ydynt yn denantiaid. Bydd y refereniw ychwanegol yn helpu Tai Ceredigion i wneud y gwaith mawr ei angen ar garejys, a bydd codiad rhent gwahaniaethol yn gwarchod ei thenantiaid ei hunan ar incymau isel tra'n codi rhent mwy realistig ar bobl nad ydynt yn denantiaid sydd ar incymau uwch.

Meddai Prif Weithredwr Tai Ceredigion Steve Jones, "Penderfynodd y Bwrdd fod y gwaith o ofalu am lawer o garejys yn costio mwy inni mewn costau atgyweirio nac roeddem yn ei dderbyn mewn rhenti. Roeddent yn teimlo hefyd y dylid blaenoriaethu garejys at ddefnydd ein tenantiaid ni ac y dylid defnyddio'r garejys



## cartrefi gwell, dyfodol disglair better homes, brighter future

at eu pwrpas gwreiddiol, ac nid ar gyfer storio nwyddau neu ymarfer crefft neu fasnach. Byddwn yn cynnal yr adolygiad o'r garejis trwy ymgynghori â'n tenantiaid fel rhan o becyn o welliannau amgylcheddol. Bydd tenantiaid sydd eisiau dechrau neu barhau micro fusnesau yn cael eu cyfeirio at gynghorwyr busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y gallant gael cyngor ar ddod o hyd i eiddo busnes addas”.

**DIWEDD**